

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU  
TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG  
YNGLŶN AG ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR Y SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU  
TRYDAN YNG NGHYMRU**

## **Pwrpas**

**Pwrpas y papur hwn yw ymateb i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan**

## **Ymateb**

Rydym yn croesawu'r adroddiad drafft a hoffem ddiolch i'r pwyllgor am eu gwaith.

### **Argymhelliad 1**

Argymhelliad y Pwyllgor: Mae bellach yn hanfodol bod y strategaeth a gafodd ei haddo yn cael ei chyflwyno yn 2020, ac yn cael ei hategu gan ddigon o gyfalaf ariannol a gwleidyddol i sicrhau y gellir gwireddu gweledigaeth y Gweinidog yn ddi-oed.

#### **Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu'r strategaeth a'i chyhoeddi yn 2020. Un o elfennau allweddol y strategaeth fydd meintioli'r gofyniad am seilwaith gwefru cerbydau trydan, wrth i nifer y cerbydau trydan sy'n cael eu defnyddio gynyddu, ac asesu'r angen am ragor o ymyrraeth gan y llywodraeth i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau yn y farchnad.

**Goblygiadau Ariannol** – Rydym yn ystyried cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth gwefru. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu maes o law.

### **Argymhelliad 2**

Argymhelliad y Pwyllgor: Dylai Llywodraeth Cymru fod yn enghraifft batrymol ymhlith cyrff cyhoeddus yng Nghymru, a newid ei fflyd o gerbydau i gerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel cyn gynted ag y bo modd. Dylai hefyd gytuno ar dargedau uchelgeisiol ond realistig i bob fflyd sector cyhoeddus yng Nghymru gael ei newid, fel y cynigir yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

#### **Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi cyflwyno cerbydau batris trydan a cherbydau hybrid y gellir eu gwefru drwy blwg i'n fflyd bach o gerbydau. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob cyfle i newid i gerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel iawn, ac rydym yn cydnabod yr angen i arwain y ffordd yn y maes hwn.

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU  
TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG  
YNGLŶN AG ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR Y SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU  
TRYDAN YNG NGHYMURU**

Gwnaethom gynnwys cynnig yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel y dylai pob car a cherbyd nwyddau ysgafn newydd yn fflyd y sector cyhoeddus fod yn gerbyd allyriadau isel iawn erbyn 2025; a lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, y dylai pob cerbyd nwyddau trwm fod yn gerbyd allyriadau isel iawn erbyn 2030. Rydym wedi cymryd y camau cyntaf yn y gwaith o archwilio ymarferoldeb y cynnig hwn, drwy ariannu adolygiadau fflyd ac astudiaethau o ymarferoldeb mannau gwefru cerbydau trydan o fewn nifer o gyrrff cyhoeddus.

Er enghraifft, mae'r cymorth mae ein Rhaglen Byw yn Glyfar a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi'i roi i Grŵp Cyrff Cyhoeddus Gwent wedi bod yn llwyddiant. Mae canlyniadau'r adolygiadau o'u fflydoedd yn cyflwyno busnes achos da dros ddisodli rhai cerbydau â cherbydau trydan ar unwaith, a byddai newid ar raddfa fawr yn gost effeithiol erbyn 2025. Ar hyn o bryd mae cyrrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun cyflawni.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol ar gyfer rhaglenni.

### **Argymhelliad 3**

Argymhelliad y Pwyllgor: Bydd y Strategaeth Drafnidiaeth sydd ar y gweill ar gyfer 2020 yn sicrhau bod yr ymrwymadau i ddatgarboneiddio mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi eu gwneud ar y blaen ac yn ganolog, ac yn cael eu hategu gan yr arweinyddiaeth wleidyddol briodol a buddsoddiadau ariannol i greu rhwydwaith trafnidiaeth lanach a gwyrddach.

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwasanaethau bysiau a threnau, cynlluniau metro, seilwaith teithio llesol a newid i gerbydau trydan. Bydd camau i ddatgarboneiddio trafnidiaeth yng Nghymru yn elfen allweddol o Strategaeth newydd Drafnidiaeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol** – Rydym yn ystyried cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynlluniau yma. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu maes o law.

### **Argymhelliad 4**

Argymhelliad y Pwyllgor: Mae gwaith Llywodraeth Cymru i drafod â rhanddeiliaid wedi bod yn ddiffygiol – mae llywodraethau lleol yn benodol wedi beirniadu yr ymdrechion hyd yn hyn. Yn ei dystiolaeth, gwnaeth y Gweinidog gydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ag eraill, ac rydym yn disgwyl gweld

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU  
TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG  
YNGLŶN AG ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR Y SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU  
TRYDAN YNG NGHYMURU**

cynnydd yn y maes hwn mewn perthynas â datblygu a chyhoeddi strategaeth ar gyfer gwefru cerbydau trydan.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi cynyddu ein trafodaethau ag awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ynghylch cyfleoedd ar gyfer manau gwefru cerbydau trydan, deall eu cynlluniau a gweld y rhwystrau maent yn eu gweld rhag estyn y rhwydwaith gwefru. Rydym wedi gofyn i Drafnidiaeth Cymru – sydd hefyd yn trafod â phob awdurdod lleol ynghylch eu cynlluniau ar gyfer rhwydwaith gwefru cyflym ar y rhwydwaith ffyrdd strategol – ddatblygu rhwydwaith o fannau gwefru mewn gorsafoedd trenau, a chynlluniau i gynyddu nifer y manau gwefru ym meysydd parcio'r sector cyhoeddus.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 5**

Argymhelliad y Pwyllgor: Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith o gaffael rhwydwaith gwefru cerbydau trydan o dan arweinyddiaeth Trafnidiaeth Cymru, mae'n hanfodol ein bod yn dysgu gwersi oddi wrth Gyflymu Cymru (h.y. peidio ag addo mwy nag y gellir ei gyflenwi, a sicrhau, lle mae buddsoddiadau cyhoeddus yn creu elw preifat, fod mecanwaith i rannu manteision yr elw hynny a chynyddu cwrpas yr ymyrryd).

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y broses gaffael yn sicrhau'r gwerth gorau am arian posibl o'r pwrs cyhoeddus, wrth greu cynnydd sylweddol yn y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. Hefyd, cyn belled ag y bo hynny yn rhesymol ymarferol, dylai'r rhwydwaith gael ei ddiogelu at y dyfodol, fod yn fodiwlwr, a bod yn addas i'w uwchraddio gyda'r gost leiaf i'r trethdalwr

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 6**

Argymhelliad y Pwyllgor: Dylid ehangu'r gofyniad ym Mholisi Cynllunio Cymru 10, i ddatblygiadau amhreswyl newydd roi manau gwefru yn o leiaf 10% o'r lleoedd parcio sydd ar gael, i gynnwys datblygiadau preswyl. Hefyd rhaid ystyried codi canran y lleoedd parcio sydd â manau gwefru, wrth i nifer y cerbydau trydan gynyddu.

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU  
TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG  
YNGLŶN AG ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR Y SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU  
TRYDAN YNG NGHYMRU**

**Ymateb: Derbyn**

Gwnaethom gyflwyno'r gofyniad i ddatblygiadau amhreswyl gynnwys manau gwefru ym Mholisi Cynllunio Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i gymryd camau ar unwaith mewn perthynas â'r mater pwysig hwn. Fodd bynnag, bwriedir i'r gofyniad hwn fod yn fesur dros dro, cyn i ddull mwy cynhwysfawr gael ei weithredu drwy'r Rheoliadau Adeiladu. Bydd y system gynllunio yn parhau i gyflawni rôl ategol – er enghraifft, drwy sicrhau bod darparu manau gwefru'n cael ei ystyried yn gynnar yn y broses ac yn cael ei gynllunio fel rhan o ddyluniad cyffredinol datblygiadau.

**Argymhelliad 7**

Argymhelliad y Pwyllgor: Dylai Llywodraeth Cymru fod yn weithredol wrth annog a chefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar grantiau i ddarparu manau gwefru newydd. Bydd hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol llwyddiannus rannu arferion da ag eraill.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w hannog i rannu arferion da a chynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth y DU. Gwnaethom helpu pum ardal o fewn Awdurdod Lleol Gwent i sicrhau £459,000 ar gyfer manau gwefru cerbydau trydan oddi wrth Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel ym mis Medi eleni.

**Goblygiadau ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 8**

Argymhelliad y Pwyllgor: Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried a fyddai'r cymhellion lleol a gynigiwyd gan Brif Swyddogion Trafnidiaeth yr Alban yn effeithiol yn eu hardaloedd nhw.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adolygu posiblwydd cymhellion lleol i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan.

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU  
TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG  
YNGLŶN AG ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR Y SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU  
TRYDAN YNG NGHYMRU**

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau cyfredol ar gyfer rhaglenni.